**Y PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD**

**Dyddiad:** **1 Mawrth 2000**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol**
**Teitl:** **Y berthynas rhwng yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Cynulliad Cenedlaethol**

**Cyflwyniad a'r sefyllfa bresennol**

1. Nid yw rheolaeth iechyd a diogelwch wedi ei ddatganoli ac mae'n parhau'n gyfrifoldeb i Weinidogion y DU a'r Senedd yn San Steffan. Cyfrifoldeb i Awdurdodau Lleol y DU yw sicrhau bod y rheolaeth yn cael ei orfodi.

2. Nid yw'r Comisiwn Iechyd a Diogelwch (HSC) na'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn atebol i Weinidogion yr Alban nac i Ysgrifenyddion Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar faterion iechyd a diogelwch.

3. Mae'r HSC, gyda chymorth yr HSE, yn parhau i roi cyngor i weinidogion y DU, gan gynnwys Ysgrifenyddion Gwladol yr Alban a Chymru, ar faterion sy'n ymwneud â'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc.

4. Mae natur eang y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith yn golygu fod yr HSC/E a'r gweinyddiaethau datganoledig yn rhannu llawer o ddiddordebau ar nifer o bynciau, a chynhwysir rhestr o'r rhain yn **Atodiad 1a.**

**Briffio Ysgrifenyddion y Cynulliad ar Faterion Iechyd a Diogelwch**

5. Bydd HSE yn darparu briff cefndirol i Ysgrifenyddion y Cynulliad ar bolisïau sefydledig neu faterion gweithredol, er mwyn cyfrannu at y broses o ymdrin â chwestiynau neu ddadleuon.

6. Fel arfer bydd briff ar bolisi sy'n datblygu yn cael ei baratoi yn unig ar gyfer Gweinidogion y DU, ond os oes gan y mater oblygiadau ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig, mae'n bosibl y bydd Gweinidogion y DU am ei drosglwyddo atynt. Mater i Weinidogion y DU yw'r penderfyniad hwnnw.

7. Bydd yr HSE yn darparu gwybodaeth weithredol sydd o ddiddordeb uniongyrchol i'r gweinyddiaethau datganoledig yn unol â'r egwyddorion a amlinellir ym mhwyntiau 5 a 6 uchod. Mae hyn yn cynnwys briffio ynghylch digwyddiadau pwysig.

**Perthynas Waith y Cynulliad â'r HSC/E**

8. Cyfrifoldeb Mrs Edwina Hart yw'r briff materion iechyd a diogelwch ar ran Cabinet y Cynulliad.

9. Ar hyn o bryd mae'r Adran Hybu Iechyd yn gweithredu fel y prif fan cyswllt ar gyfer polisïau a chynlluniau'r HSE, er bod yr holl adrannau yn ymdrin â materion iechyd a diogelwch sy'n berthnasol i'w meysydd cyfrifoldeb.

10. Mae gan swyddogion y Cynulliad berthynas waith gynhyrchiol â'r HSC a'r HSE ar lefel y DU ac â Swyddfa Ranbarthol yr HSE yng Nghymru. Yn arferol mae'r swyddogion yn cyfrannu at ddatblygu prif fentrau newydd megis y Strategaeth Iechyd Galwedigaethol newydd i Brydain, ac yn ymateb i ddogfennau ymgynghorol ar faterion iechyd a diogelwch amrywiol.

11. Mae'r HSE hefyd wedi cytuno yn swyddogol i fod yn gysylltiedig â'r *Corporate Standard for Workplace Health,* y nod ansawdd ar gyfer hybu iechyd yn y gweithle yng Nghymru.

12. Byddai Terry Rose, Cyfarwyddwr Rhanbarthol yr HSE yng Nghymru, yn fodlon iawn i gyfarfod ag Aelodau'r Cynulliad er mwyn trafod y berthynas rhwng yr HSE a'r Cynulliad Cenedlaethol.

Paratowyd y papur gan: Brenda Stephens
gyda chymorth yr HSE ar Lefel Genedlaethol a Chyfarwyddwr Rhanbarthol yr HSE yng Nghymru

Cliriwyd gan: Peter Farley, Pennaeth y Gangen

**Atodiad 1a**

**Materion Iechyd a Diogelwch y mae'r gweinyddiaethau datganoledig a'r HSC/E yn rhannu diddordeb ynddynt**

- Rheolaeth adeiladu
- Sylweddau peryglus
- Cyfleusterau addysgol a chanolfannau gweithgareddau antur
- Diogelwch tân
- Diogelwch bwyd
- Organebau a addaswyd yn enetig
- Awdurdodau Lleol
- Cynllunio
- Plaleiddiaid (gan gynnwys bywleiddiaid a chynnyrch eraill i amddiffyn planhigion)
- Mannau adloniant (sinemâu, theatrau, casinos, neuaddau-dawns etc.)
- Cyfleusterau a digwyddiadau chwaraeon

- Porthladdoedd a dyfrffyrdd mewndirol
- Amddiffyn yr amgylchedd
- Iechyd y cyhoedd / Iechyd Galwedigaethol / Hybu Iechyd
- Diogelwch Niwclear
- Diogelwch Rheilffyrdd
- Diogelwch gweithdrefnau clinigol a meddygol
- Ysmygu
- Swâu